Cyngor Bro Llanfairpwllgwyngyll
Cofnodion Cyfarfod 26ain Mawrth 2013

Presennol: A. Mummery (Cadeirydd), A. Jones, A. Williams, J. Roberts, A. Thomas, B. Jones, H. Huws, D. Williams, E. Parry, G. Parry, G.C. Jones.
Cynghorydd Sirol J. Evans. Anwen Le Cras (Clerc)

1. Ymweliad gan Swyddog Cefn Gwlad ac AHNE, Cyngor Sir Ynys Môn
Croesawyd Mr Alun M Owen i'r cyfarfod a diolchwyd iddo am gymryd yr amser i ddod i esbonio gwaith y Bartneriaeth AHNE. Nodwyd Ymddiheuriad gan Gwyn Morris Jones, Cadeirydd y Bartneriaeth na allai fod yn bresennol. Esboniwyd nad yw'r JAC *(Joint Advisory Committee)* yn Bwyllgor Gwaith ac felly nid oes pwerau gan y Pwyllgor i wneud penderfyniadau nac i ddatgan barn. Adroddodd y swyddog fod y Pwyllgor wedi herio cynrychiolwyr y Grid Cenedlaethol ynglŷn â'u cynlluniau ar gyfer trosglwyddo ynni o Ynys Môn, yn ystod eu cyfarfod yn ôl ym mis Tachwedd. Mae'r mudiadau sy'n cael eu cynrychioli ar y Pwyllgor wedi ymateb yn unigol i ymgynghoriad y Grid Cenedlaethol. Diolchwyd i Mr Owen am fynychu. Penderfynwyd trafod y mater ymhellach yng nghyfarfod nesaf y Cyngor Bro.

2. Ymddiheuriadau: J. A. Edwards.

3. Datganiadau Diddordeb Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau diddordeb

4. Materion Cyngor Sir
- Llwybr troed Lon Hedydd/Lon Foelgraig wedi ei drwsio.
- Ffens llwybr beicio yn y Gors - y gwaith i gychwyn wythnos nesaf.
- Llwybr cyhoeddus Llon Dyfnia - angen cysylltu â'r Cyngor Sir er mwyn cael trwsio planciau.

5. Cyflwyno a Chadarnhau Cofnodion 26 Chwefror 2013
Cynigwyd gan A. Jones ac eiliwyd gan G. Parry. Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir.

6. Materion yn codi o'r cofnodion
6.1 Lon Cil y Graig - y mater llys rhwng CSYM a Mr Barry Challinor wedi'i ohirio.
6.2 Ieuan Jones, Glanhawr y Gors wedi gyrru neges testun anweddus i'r Clerc. Nid yw wedi cysylltu i drefnu dod 'nôl i'w wait hers iddo fod i ffwrdd o'i waith 24ain Rhagfyr 2012. Anfonodd neges i'r Clerc ar Fawrth 18 yn dweud ei fod am ffonio'r Cadeirydd ond nid yw wedi ei ffonio hyd yma. Y Clerc i ofyn am gyngor gan Un Llais Cymru ar sut i ddelio gyda'r sefyllfa.
6.3 Llwybr y Fynwent - y Clerc yn disgwyl pris gan John C. Lewis.
6.4 Cais gan Mrs Marian Roberts i blannu briallu yn y gweu blodau o amgylch y fynwent. - dim gwrthwynebiad.
6.5 Nodwyd gan A. Jones fod y contractwr torri gwair wedi gwneud gwaith da iawn ar y torri ond nid oedd wedi defnyddio peiriant chwythu ar faes parcio'r fynwent yn unol â'r hyn oedd yn ei bris am y gwaith.
6.6 Defaid yn baeddu ar faes parcio'r fynwent - y Clerc i gysylltu â CSYM i ddarganfod pwy yw perchennog y defaid.
6.7 To gegin y neuadd goffa - nodwyd bod dwr yn parhau i ddod trwy'r to. Mae'n ymddengys bydd y Neuadd yn agored am ryw flwyddyn arall felly dylid ystyried trwsio'r to dros dro.
6.8 Traeniau cae peldroed y Gors - cwmni R.G. Hire wedi gwneud ymchwiliad o'r traeniau ac am anfon pris am ei atgyweirio.
6.9 Twmpathau ar lôn Cil y Graig - Y Cadeirydd am gysylltu â'r Cyngor Sir ynglŷn â hyn yn ogystal â Lôn Refail ger y Wern.
6.10 Archwiliad ar y Maes Chwarae - y Clerc i drefnu'r archwiliad gyda Medwyn Owen, Chwarae Plant.

7. Cofnodion Pwyllgor Amgylchedd ac Eiddo 12 Mawrth 2013
Cynigwyd gan A. Jones ac eiliwyd gan G.C. Jones. Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir.

8. Materion yn codi o'r cofnodion

2.1 Gwaith adeiladu plotiau blodau ger y cloc/hysbysfwrdd - y Clerc i drefnu cyfarfod gyda Saer Maen i drafod y gwaith.
2.2 Cysoni gwaith tirmona - penderfynwyd disgwyl i weld beth yw sefyllfa Ieuan Jones y glanhawr cyn trafod ymhellach. Gofyn i gadeiryddion y Pwyllgorau restru'r holl waith tirmona erbyn y cyfarfod nesaf.
2.3 Bin Baw ci - wedi ei archebu ond heb ei dderbyn hyd yma.
2.4 Safle parcio a theithio Refail Goch wedi agor. Parcio am ddim, talu £2.00 ar y bws i Fangor ac yn ôl.

9. Ceisiadau Cynllunio

9.1 Apêl Tŷ Gwyn, Penmynydd i osod twrbin gwynt.
Datgan pryder ynglŷn â maint y twrbin os nad yn cydymffurfio a pholisi Ynys Môn.

10. Cyfrifon Mis Mawrth 2013

Cyflwynwyd taenlen gwariant a derbyniadau mis Chwefror yn ogystal â thaenlen gwariant yn erbyn y gyllideb. Cynigwyd gan G. Parry ac eiliwyd gan A. Jones. Derbyniwyd y cyfrifon a chytunwyd i'r taliadau.
Adroddodd y Clerc bod cyfrifon 2012/13 angen bod gyda'r archwilydd mewnol erbyn 24ain Ebrill ac yna wedi'u cymeradwyo gan y Cyngor Bro erbyn 31Mai ar gyfer yr awdit allanol.
Nodwyd nad oedd Coleg Harlech wedi talu biliau llogi Neuadd Goffa yn ystod y flwyddyn. Y Clerc i hysbysebu'r gofalwr i beidio bwcio'r neuadd iddynt hyd nes y bydd y taliadau wedi'u gwneud.

11. Gohebiaeth

11.1 CSYM Penderfyniadau cynllunio.
11.2 CSYM Cais wyro llwybr cyhoeddus 11. i Penmynydd. - Dim gwrthwynebiad.
11.3 Partneriaeth Twristiaeth Gogledd Cymru - ymateb i'r llythyr gwrthwynebu peilonau.
11.4 Un Llais Cymru - Ffurflen ymaelodi gydag Un Llais Cymru £345 y flwyddyn. Cytunwyd.

12. Unrhyw Fater Arall

12.1 Pwyllgor Trosedd ac Anhrefn - er gwybodaeth nodwyd gan J. Roberts bod yr Heddlu unwaith eto wedi anfon PCSO yn hytrach na Swyddog i'r cyfarfod.
12.2 Pwyllgor Safonau - nodwyd bod dau fater wedi codi yn erbyn cynghorwyr cymuned ym Môn.
12.3 Ffens Clwb Bowlio - derbyniwyd llythyr gan CSYM yn cytuno i dalu ar y cyd am osod ffens newydd rhwng y Clwb Bowlio a llwybr troed Trem Eryri. Y Clerc i drefnu'r gwaith ac anfonebu'r Cyngor Sir am hanner y gost.
12.4 Gofynnwyd a oedd unrhyw un yn adnabod perchennog y modurdy rhwng Maes Hyfryd a'r gweithdai ger yr ysgol. Nodwyd ei fod mewn cyflwr peryglus a bod plant yn cerdded heibio are u ffordd i'r ysgol. Y Clerc i wneud ymholiadau.
12.5 Hen 'sub-station' Scottish Power, Lon Refail wrth y Wern. Nodwyd bod y caead wedi'i symud. Mynegwyd pryder y gellir plant cael i mewn iddo. Y Clerc i gysylltu â Scottish Power i'w hysbysebu o'r ffaith.
12.6 Coed dros ffordd i'r wern, ceffylau'n pori yno. Nodwyd bod ragwort yn tyfu yno llynedd a'i fod yn beryglus i geffylau.

Dyddiad cyfarfod nesaf - Nos Fawrth 23 Ebrill 2013 am 7.00yh

Arwyddwyd ..... (Cadeirydd) .....(Dyddiad)